Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

# Yn dilyn Llawdriniaeth ar yr Amrant

## Gwybodaeth i gleifion sydd o dan ofal Uned y Llygaid

---

**Ar ôl llawdriniaeth ar eich amrant**

Mae'r daflen hon yn darparu gwybodaeth ac arweiniad er mwyn helpu i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych yn dilyn eich llawdriniaeth.

**Poen ac Anghysur**

Gall gymryd **hyd at 2 awr** i'r anesthetig lleol sy'n cael ei chwistrellu o amgylch eich amrant ddiflannu'n llwyr.

Unwaith y bydd wedi diflannu, mae'n bosib y byddwch chi'n profi rhywfaint o anghysur. Fel arfer gellir lleddfu'r anghysur hyn gyda chyffuriau lleddfu poen ysgafn megis **Paracetamol**, gan ddilyn y cyfarwyddiadau ar y pecynnu. Os yw eich llawfeddyg yn teimlo bod angen rhywbeth cryfach arnoch, bydd yn rhoi dewis arall i chi ar bresgripsiwn.

**Oes angen i mi amddiffyn fy llygad?**

Yn y rhan fwyaf o achosion, **ni roddir unrhyw rwymyn** ar ôl llawdriniaeth ar yr amrant oni bai bod eich llawfeddyg yn cynghori fel arall.

Gallwch wisgo'ch **sbectol neu'ch sbectol haul** arferol er mwyn gwneud i chi deimlo'n fwy cyfforddus a diogel.

**Rhagofalon Ar ôl Llawdriniaeth**

I helpu i leihau chwydd ac atal gwaedu:

- Gorffwyswch yn dawel am weddill y dydd
- Dylech osgoi alcohol, bwydydd sbeislyd poeth, a diodydd poeth iawn
- Efallai y bydd eich llawfeddyg yn gofyn i chi roi pecyn iâ ar eich amrannau yn nes ymlaen heddiw. Bydd y nyrs yn esbonio sut i wneud hyn yn ddiogel.

**Beth i'w ddisgwyl**

Mae'n normal cael:

- Rhywfaint o gleisio a chwyddo o amgylch yr amrannau a all bara hyd at sawl wythnos

- Ychydig o redlif yn ystod y 24 awr gyntaf

Cysylltwch â ni os ydych chi'n profi:

- Gwaedu nad yw'n stopio ar ôl cyfnod byr gyda chywasgiad
- Chwydd amlwg neu gynyddol
- Poen na ellir ei leddfu gyda chyffuriau lleddfu poen
- Rhedlif parhaus

**Glanhau o gwmpas yr amrant**

Gallwch lanhau'n ofalus o amgylch yr amrannau gan ddefnyddio **swabiau cotwm** a dŵr berwedig wedi'i oeri .

Ceisiwch osgoi sychu'n uniongyrchol dros y pwythau i atal tarfu ar y clwyf.

Eich Apwyntiad Dilynol

Byddwch yn cael apwyntiad i ddychwelyd i'r clinig i weld y meddyg. Yn ystod yr ymweliad hwn, gellir tynnu pwythau os oes angen.

Parhewch i ddefnyddio unrhyw ddiferion llygaid neu eli a roddwyd i chi ar bresgripsiwn **nes eich apwyntiad dilynol**, oni bai eich bod wedi cael eich cynghori fel arall.

**Gyda phwy i gysylltu â hwy os ydych chi'n bryderus.**

Os oes gennych unrhyw bryderon am eich llygaid neu eich adferiad, cysylltwch â:

**Clinig y Llygaid Brys Ffoniwch: 01633 238856 Oriau:** 08:30yb – 5:00yp

**Y tu allan i'r oriau hyn:** Cysylltwch â'r **meddyg Offthalmoleg sydd ar alwad** drwy switsfwrdd yr ysbyty.

**Nodiadau Personol**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /**
**This document is available in English**